Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Brynffordd
Brynffordd
Treffynnon
Sir y Fflint
CH8 8AD

20/04/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mawrth 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Brynffordd yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut maent yn trefnu ac yn cyflwyno'u gwaith a phenderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ymateb i dasgau dysgu

- Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu disgwyliadau ar y cyd ar gyfer datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Mae'r gwaith hwn yn gymharol ddiweddar ond mae'n darparu arweiniad defnyddiol ar gyfer arfer ystafell ddosbarth athrawon, ac yn sicrhau bod disgwyliadau ar gyfer annibyniaeth disgyblion yn datblygu'n raddol dros gyfnod.
- Mae portffolio dysgu annibynnol yr ysgol yn adnodd gwerthfawr. Mae'n galluogi pob un o'r staff i fyfyrio ar ystod y cyfleoedd a gaiff disgyblion i wneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut, wrth iddynt symud trwy'r ysgol.
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn dda i ddisgwyliadau athrawon ar gyfer eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Maent yn dewis yr adnoddau sydd eu hangen arnynt yn fedrus i gwblhau eu baich gwaith, ac yn gynyddol, yn dewis dull cyflwyno sy'n gweddu i ddiben y gweithgaredd dysgu yn dda. Mewn ychydig o achosion, mae ymatebion disgyblion yn hynod arloesol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dysgu blaenorol yn effeithiol i ddylanwadu ar y ffordd maent yn datrys problemau neu'n cyflwyno'u gwaith.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu gallu i werthuso'u dysgu a'u cynnydd. Maent yn aml yn mireinio'u gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus i ymateb i'w harsylwadau eu hunain ac adborth gan athrawon a chyfoedion.
- I adeiladu ar lwyddiant cychwynnol mewn cefnogi annibyniaeth disgyblion, mae arweinwyr yn cydnabod bod angen diffinio'n gliriach ar gyfer disgyblion beth maent yn gallu gwneud i ddangos ymddygiadau dysgu allweddol, fel dyfalbarhad a gwydnwch.

## Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Mae staff wedi datblygu trosolwg defnyddiol o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r trosolwg hwn yn cefnogi parhad a dilyniant mewn dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mathemategol mewn ystod o gyd-destunau pwrpasol a pherthnasol. At ei gilydd, mae'r profiadau dysgu a ddarperir yn galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau mathemategol ar lefel addas o heriol.
- Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae staff yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniad rhif trwy ystod o weithgareddau ymarferol diddorol.
- Yn y dosbarthiadau hŷn, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o ddefnyddio data pan maent yn dangos a dehongli gwybodaeth yn gysylltiedig â'u thema neu'u testun. Maent hefyd yn datrys problemau rhif cymhleth â llawer o gamau yn gywir gan ddefnyddio dull cyfrif o'u dewis nhw.
- Mae athrawon yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn cefnogi disgyblion yn dda i ddefnyddio'u medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio arddangosfeydd ystafell ddosbarth yn llwyddiannus i ddangos enghreifftiau o ddulliau a disgwyliadau ar gyfer dysgu, a sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad parod at offer mathemateg ymarferol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/brynford-c-p-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol